Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu ar gyfer

Saer Coed

Sir Caerffili

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

23 Mai 2022

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.
Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk
Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Ynglŷn â Saer Coed

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth cartref gofal Oedolion a phlant heb ofal nyrsio
Darparwr cofrestredig	Values in Care Ltd
Lleoedd cofrestredig	5
Iaith y gwasanaeth	Saesneg
Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru	Hwn yw'r arolygiad cyntaf o'r gwasanaeth ers ailgofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Yn gweithio tuag ato Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant.

Crynodeb

Mae Saer Coed yn rhan o sefydliad ehangach, Values In Care, sy'n dangos dealltwriaeth o bobl ifanc a'u hanghenion cymhleth, gan ddiwallu'r rhain yn llwyddiannus i sicrhau bod pobl yn fodlon, yn hapus ac yn cyrraedd eu potensial. Mae digon o weithwyr cymorth tosturiol sydd wedi'u hyfforddi'n dda yn cynnig gofal ac anogaeth. Mae'r gweithgareddau a gynigir yn llawn hwyl a chwerthin. Mae cysondeb staff wedi bod yn broblemus yn ystod y pandemig, ond mae hyn bellach wedi'i ddatrys.

Mae darparwr y gwasanaeth wedi enwebu unigolyn cyfrifol i oruchwylio ansawdd y gofal a ddarperir. Mae'n cyflawni ei ddyletswyddau gyda diwydrwydd dyladwy. Mae polisïau, dogfennau a systemau monitro ar waith i gefnogi rheolaeth y gwasanaeth.

Mae'r amgylchedd yn addas ar gyfer anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref gyda digon o le personol a chymunol sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac sy'n gyffredinol ddiogel. Mae darparwr y gwasanaeth yn bwriadu gwneud hyn hyd yn oed yn fwy cadarn trwy ddarparu gorchuddion rheiddiaduron ym mhob rhan o'r cartref a diweddaru rhai asesiadau risg ynghylch storio nwyddau ymolchi.

Llesiant

Mae'r bobl ifanc sy'n byw yn Saer Coed yn cael eu hannog i gyfleu eu hanghenion a'u dymuniadau ac yn cael eu cefnogi i wneud dewisiadau o ran y ffordd maent yn byw o ddydd i ddydd. Defnyddir dulliau cyfathrebu arbenigol i gefnogi hyn. Pan fydd y bobl yn ei chael hi'n anodd gwneud penderfyniadau, mae ganddynt gynrychiolaeth briodol. Mae'r gweithwyr gofal a'r bobl yn deall ei gilydd, gan ddeall eu hanghenion trwy arsylwadau. Mae'r gofal a ddarperir yn ystyried unrhyw ddymuniadau a gofnodwyd am feysydd fel diwylliant neu grefydd. Caiff unigolion eu trin â pharch a gwrandewir arnynt. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi'r bobl yn llwyddiannus i deimlo'n gyfforddus yn eu hamgylchedd, gan ganiatáu iddynt wella eu hyder a chyflawni canlyniadau a nodwyd. Cadarnhaodd comisiynwyr yr awdurdod lleol bod cyfathrebu da gyda'r gwasanaeth a gwnaethant ddweud wrthym: "*mae ganddyn nhw ddealltwriaeth o anghenion cymhleth a phobl ifanc, ac maen nhw'n gweithio'n gadarnhaol ac yn adeiladol gydag unigolion*".

Mae'r gwasanaeth yn darparu cyfleoedd i'r bobl fod yn egnïol a chymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cefnogi eu hiechyd meddwl a chorfforol. Mae gweithgareddau wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion y bobl ifanc, yn amrywio o hobïau sy'n caniatáu eu lle eu hunain i'r bobl, i weithgareddau cymdeithasol lle mae nifer o'r bobl yn cael eu cefnogi i fynd ar deithiau, neu i ganolfan weithgareddau. Ymgynghorir â gweithwyr proffesiynol a chânt eu cynnwys yng ngofal y bobl. Mae'r gweithwyr gofal yn cadw cofnodion da i ddangos tystiolaeth o'r gofal a ddarperir ac er mwyn helpu i fonitro anghenion iechyd. Ymgynghorir ag unigolion ynghylch eu prydau bwyd a gwneir cynlluniau i'w cynorthwyo i siopa. Mae'r rhain yn dangos ystyriaeth o ddeiet cytbwys, maethlon. Mae'r system rhoi meddyginiaeth yn gadarn. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi pobl ifanc sy'n mynegi eu pryderon a'u rhwystredigaethau trwy eu hymddygiad. Mae'r gweithwyr cymorth yn adnabod y bobl yn dda, ac yn eu monitro'n barhaus i sylwi ar newidiadau cynnil, fel y gallant fod yn rhagweithiol wrth atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu.

Mae polisïau a hyfforddiant ynghylch diogelu yn sicrhau bod gan y gweithwyr cymorth wybodaeth addas i gefnogi'r bobl agored i niwed. Dywedodd rhieni'r bobl a gefnogir wrthym fod eu hanwyliaid "*yn ddiogel, yn fodlon ac yn cael gofal da."* Mae'r gwasanaeth yn ystyried sut y bydd person sy'n mynd i gael ei gyflwyno i'r gwasanaeth yn cyd-fyw ag eraill. Mae lefelau staffio yn dda ac yn sicrhau bod unigolion yn cael eu cefnogi i aros yn ddiogel, hyd yn oed pan fyddant yn dangos arwyddion o rwystredigaeth. Yn aml, rhieni yw'r eiriolwyr ar gyfer unigolion sy'n byw yn y gwasanaeth; maent yn dweud wrthym eu bod yn cymryd rhan lawn yn y broses cynllunio ac adolygu gofal, ac yn cadarnhau bod cyfathrebu da ynghylch person a'i anghenion.

Mae Saer Coed yn rhan o'r darparwr 'Values in Care', a darperir gwybodaeth dda i unigolion neu eu cynrychiolwyr, cyn, ac yn ystod eu preswyliad. Dywedodd un rhiant

wrthym ei fod yn hoffi bod y tîm ehangach yn drylwyr, yn agored ac yn onest yn eu hymagwedd wrth ymateb i ymholiad, ac nad oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu brysio wrth ystyried ac adolygu'r gofal fel rhan o'r broses derbyn.

Gofal a Chymorth

Mae'r gwasanaeth yn cymryd gofal i asesu'r bobl cyn iddynt ddod yn breswylwyr yn y cartref, gan sicrhau eu bod yn paru pobl cyn belled ag y bo modd i atal gwrthdaro rhag codi. Mae cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth fanwl gan gynnwys cynllun gofal sy'n canolbwyntio ar y person, asesiadau risg ac unrhyw awdurdodiad a roddwyd fel rhan o'r cais am orchymyn amddifadu o ryddid. Mae gan unigolion sy'n defnyddio ymddygiad heriol i fynegi eu hunain gynllun manwl ar gyfer hyn y mae'r gweithwyr gofal yn ei ddilyn. Mae cynrychiolwyr unigolion yn cymryd rhan yn yr adolygiad rheolaidd o anghenion gofal a chymorth y bobl, yn ogystal â chomisiynwyr a gweithwyr iechyd proffesiynol. Mae gan y bobl arferion sy'n hyrwyddo datblygu sgiliau bywyd bob dydd a sgiliau cymdeithasol, wedi'u cyflwyno mewn fformat sy'n addas ar gyfer yr unigolyn. Gwelsom fod gan un person gynlluniwr ar wal yr ystafell wely gyda lluniau i ddangos y gweithgareddau ar gyfer pob diwrnod, ac roedd gan unigolyn arall siart llun cam wrth gam i'w helpu i gwblhau gweithgaredd penodol. Dywedodd un aelod o'r teulu wrthym: "*maen nhw'n gadael i mi wybod popeth"* a theimlai ei fod yn rhan o adolygiad o gymorth yr unigolyn bob dydd, a dywedodd un arall wrthym ei fod yn cael adolygiadau rheolaidd am y gofal gyda'r gweithwyr gofal a nyrs arbenigol.

Mae'r bobl ifanc sy'n byw yn y gwasanaeth yn cael eu cefnogi i wneud penderfyniadau ar lefel y gallant ei rheoli. Rhoddir amser a lle i'r bobl brosesu eu dealltwriaeth o'r hyn a ofynnir iddynt a chânt eu cefnogi'n llawn i gyflawni canlyniadau a nodwyd. Mae cofnodion dyddiol yn dangos bod unigolion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau o'u dewis ac yn mwynhau eu profiadau. Dywedodd un perthynas wrthym: "*maen nhw'n mynd â nhw allan ac yn eu helpu i roi cynnig ar bethau newydd.*" Mae cofnodion ac adolygiadau manwl yn dangos sut mae unigolion yn cael eu cefnogi i ddatblygu, er enghraifft, o fethu symud neu ymgysylltu, i bwynt lle maent yn gallu cael mynediad i weithgareddau yn y gymuned. Mae rhai pobl yn cael eu cefnogi i aros dros nos gyda'u teulu. Gwelsom y gweithwyr gofal yn chwarae pêl-fasged gydag un unigolyn a therapi cerddoriaeth gydag un arall, gwneir hyn dan chwerthin ac felly roedd unigolion yn dangos eu bod yn teimlo'n hamddenol ac yn hapus.

Mae'r ddarpariaeth o roi a chofnodi meddyginiaeth yn gadarn, ac mae unigolion yn cael adolygiadau rheolaidd o'u meddyginiaeth i gefnogi eu hanghenion, gan gynnwys meddyginiaeth na fydd ond ei hangen o bryd i'w gilydd efallai. Cedwir cofnodion o anghenion iechyd y bobl i gefnogi adolygiadau gyda gweithwyr iechyd proffesiynol. Ceir darpariaeth ar gyfer gofynion deietegol arbenigol. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi'n rheolaidd i gael mynediad at wasanaethau fel y deintydd a'r optegydd. Mae llawer o'r bobl yn y gwasanaeth yn ei chael hi'n anodd cyfathrebu ac yn methu â mynegi eu hunain na'u hanghenion. Mae'r gweithwyr gofal yn sylwgar, yn gallu deall arwyddion y gallai rhywun fod mewn poen, ac oherwydd eu bod yn adnabod yr unigolion mor dda, maent yn gallu nodi pa

gymorth sydd ei angen. Defnyddir dulliau cyfathrebu arbenigol. Nid oes angen darparu'r gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd. Mae anghenion diwylliannol yn cael eu nodi fel rhan o'r asesiad ac mae'r gwasanaeth yn gweithio i sicrhau bod y rhain yn cael eu diwallu.

Yr Amgylchedd

Mae'r cartref mewn lleoliad gwledig. Mae gardd o faint da gyda seddau, tŷ haf ac offer, yn cynnig ardal ddiogel ar gyfer gweithgareddau fel pêl-fasged. Mae'r cartref yn darparu llety llawr daear yn bennaf, er bod un ystafell wely yn rhan ddormer y byngalo ac mae llety rhandy ar wahân ar gyfer un unigolyn. Mae ardaloedd cymunol yn olau ac yn cynnig digon o le i'r bobl dreulio amser cymdeithasol neu dawel, yn ogystal ag ystafell synhwyraidd. Mae rhaglen addurno a chynnal a chadw ar waith i sicrhau bod yr adeilad a'r dodrefn mewn cyflwr da. Mae'r rheolwr yn dweud wrthym fod y darparwr yn hael gyda chyllideb ar gyfer gwaith atgyweirio ac adnewyddu, a'u bod ar hyn o bryd yn aros am soffas newydd.

Mae gan y bobl eu hystafelloedd eang eu hunain sy'n cynnwys ystafell ymolchi en suite. Mae gan y bobl eitemau personol yn eu hystafelloedd gwely lle mae hyn yn ddiogel ac nad yw'n peri risg i'r unigolyn. Mae'r dodrefn yn gadarn, a lle bo angen, wedi'u cysylltu â waliau i atal y risg eu bod yn syrthio ar y bobl. Mae dodrefn arbenigol, gan gynnwys gwelyau a matiau diogelwch, ar waith i helpu rhywun i leihau anafiadau pe bai'n cwympo allan o'r gwely. Darperir camerâu fideo yn ystafelloedd gwely y bobl os oes angen eu monitro'n agos trwy gydol y nos, er enghraifft os ydynt mewn perygl o ffitiau neu drawiadau. Mae caniatâd ar gyfer monitro o'r fath wedi'i gofnodi'n ofalus.

Mae darparwr y gwasanaeth yn cymryd camau i amddiffyn y bobl rhag niwed posibl o beryglon amgylcheddol, gan ystyried tymheredd y dŵr, mesurau atal tân ac amddiffyn rhag cwympo o uchder. Mae gan rai rheiddiaduron orchuddion i leihau'r risg o anafiadau oherwydd llosgi, ond yn dilyn trafodaethau, mae'r darparwr yn mynd i sicrhau bod gan bob rheiddiadur arwynebau tymheredd isel neu rwystrau priodol i leihau'r risgiau i'r bobl. Mae cemegion fel deunyddiau glanhau yn cael eu cloi mewn cypyrddau priodol, ond mae'r darparwr yn ystyried newid y storfa ar gyfer deunyddiau ymolchi'r bobl a allai achosi perygl i'r bobl eraill sy'n byw yn y cartref a all roi pethau yn eu ceg i ddiwallu eu hanghenion synhwyraidd. Mae lle storio priodol dan glo ar gyfer meddyginiaeth.

Mae gan y gwasanaeth sgôr hylendid lefel 5 gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sef y lefel uchaf a ddyfernir ac mae gan yr holl staff yr hyfforddiant perthnasol i goginio a gweini bwyd. Yn ystod ein hymweliad, gwelsom fod eitemau bwyd wedi'u storio, eu labelu a'u dyddio'n gywir. Dilynir prosesau golchi dillad, gyda threfniadau glanhau penodol ar waith ar gyfer gwelyau a dillad gwely i atal haint a lleihau'r risg o arogl drwg yn y cartref.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth unigolyn cyfrifol enwebedig sy'n goruchwylio ansawdd y gwasanaeth. Mae'n cyflawni ei ddyletswyddau, gan gynnwys ymgysylltu â chynrychiolwyr yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'n cynhyrchu adroddiadau i ddangos bod ansawdd y gwasanaeth yn cael ei ystyried, a sut mae'r gwasanaeth yn bwriadu datblygu yn seiliedig ar ei ganfyddiadau. Mae gwybodaeth a dogfennau ar waith i egluro'r hyn y gall y gwasanaeth ei gynnig i ddarpar breswylwyr newydd. Mae rheolwr newydd yn goruchwylio'r gwaith o redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Mae ganddo gymwysterau addas, mae wedi'i hyfforddi ac wedi'i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, rheoleiddiwr y gweithlu gofal. Mae'r gweithwyr gofal yn gwerthfawrogi'r rheolwr y maent yn ei ddisgrifio fel "*werth y byd*." Nid yw rhai tasgau gwaith papur wedi'u cwblhau mewn modd amserol oherwydd bod y gwasanaeth heb ddirprwy reolwr, ac roedd galw ar y rheolwr i gefnogi darpariaeth y gofal ar adegau pan oedd y pandemig presennol yn effeithio ar lefelau staffio. Ni chafwyd unrhyw effaith ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth oherwydd yr hepgoriadau hyn ac mae'r rheolwr yn dangos ei fod bellach yn cwblhau tasgau a drefnwyd.

Mae'r gweithwyr gofal yn cael cyfnod sefydlu da i'r gwasanaeth ac maent wedi'u hyfforddi'n briodol i gyflawni eu rôl. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y sefydliad ehangach, eu bod yn ddiogel yn eu rolau ac yn gwybod sut i gadw'r bobl y maent yn gofalu amdanynt yn ddiogel. Mae cyfarfodydd goruchwylio a hapwiriadau ar y staff yn cael eu cofnodi, gan alluogi'r rheolwyr i fynd i'r afael ag unrhyw faterion lle na ddilynir gweithdrefnau. Mae gan y darparwr bolisïau a gweithdrefnau cadarn ar waith, ac mae'r rhain ar gael yn y cartref. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth i ddangos bod y staff wedi cael mynediad at y rhain, ac roedd y rheolwr yn ansicr pryd gwnaed newidiadau 'i'r dogfennau. Nid oes unrhyw effaith ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth gan fod y gweithwyr gofal yn derbyn gwybodaeth ddigonol trwy hyfforddiant. Mae ffeiliau personél yn cynnwys dogfennau perthnasol ac yn dangos bod y gweithwyr gofal yn cael eu recriwtio'n ddiogel, a'u bod yn cael y gwiriadau priodol i sicrhau eu bod yn gymwys i weithio gydag oedolion sy'n agored i niwed. Cynhelir gwiriadau hefyd i sicrhau bod y gweithwyr gofal yn gymwys i yrru cerbydau i gefnogi'r bobl i fynd i'r gymuned. Dywedodd gweithiwr cymdeithasol wrthym: "*mae'r staff yn hynod wybodus ac yn rhagweithiol wrth gyflawni canlyniadau cadarnhaol ar gyfer y rhai y maent yn gweithio gyda nhw. Maent yn dda iawn am gyfathrebu unrhyw faterion gyda rheolwyr gofal a theuluoedd."*

Ar hyn o bryd, mae yno dîm sefydlog, ymroddedig o weithwyr gofal sy'n darparu gofal i'r bobl. Profodd y gwasanaeth broblemau recriwtio a chadw staff dros y ddwy flynedd ddiwethaf trwy gydol pandemig COVID-19 ond mae hyn wedi gwella. Effeithiwyd ar ddilyniant o ran gofal ond nid oes unrhyw effaith amlwg ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae niferoedd addas o staff ar ddyletswydd yn ystod y dydd a'r nos i gefnogi'r

bobl, gan sicrhau eu bod yn cael goruchwyliaeth a chyfleoedd digonol. Gwelir fod y gweithwyr gofal yn garedig, ac yn frwd i ddarparu cefnogaeth ragorol i alluogi'r bobl i fod mor “*annibynnol a hapus â phosib*”.

Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio	
Statws	**Ystyr pob un**
Newydd	Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf.
Ni chyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	Amherthnasol

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws

Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	Amherthnasol

Dyddiad cyhoeddi 05/07/2022